

Y mae **Pont Crôg Cliffton**, sy'n sefyll dros dyffryn yr Afon Avon , yn symbol adnabyddus o ddinas Bryste. Am bron i 150 o flynyddoedd, y mae wedi denu ymwelwyr o bedwar ban byd ac mae'n gyrchfan boblogaidd i bobl lleol gerdded, hamddena a mwynhau y golygfeydd ysblynydd. Mae'r bont yn gweithredu ac yn cael ei chynnal a'i chadw yn llwyr gan Ymddiriedolaeth Pont Crôg Cliffton, elusen cofrestredig sy'n derbyn ei unig gynhafiaeth oddi wrth toll y bont. Nid yw'n derbyn nawdd gan lywodraeth lleol na chanolog nag wrth y loteri cenedlaethol. Mae Meistr y Bont, peirianydd sifil cymwys, yn gyfrifol am gynnal y bont o ddydd i ddydd.

Cychwynodd y drafodaeth am bont yn 1753 pan y gwnaeth masnachwr gwin o Fryste adael £1000 yn ei ewyllus gyda chyfarwyddiadau ar gyfer buddsoddi'r swm. Ei ddymuniad oedd i'r elw, pan dyfai i £10,000, gael ei ddefnyddio i gynnal cystadleuaeth i gynllunio ac adeiladu pont ar draws y dyffryn. Yn 1829, beirniadwyd y gystadleuaeth gyntaf gan Thomas Telford, peiriannydd sifil mwyaf ei gyfnod. Gwrthododd Telford 22 o gynlluniau a chynnig cynllun personol, ond nid oedd pawb yn hapus i'w weld yn datgan ei hun yn ennillydd, ac yn 1830 cafwyd ail gystadleuaeth. Wedi trafodaeth danlyd, dewiswyd Isambard Kingdom Brunel, dyn ifanc 24 oed, yn ennillydd. Dyma oedd y comisiwn mawr cyntaf iddo dderbyn ac apwyntiwyd ef yn reolwr prosiect arni.

Yn anffodus, llethwyd y gwaith gan broblemau arianol a gwleidyddol Yn 1843, er i'r ddau dŵr gael ei codi, gosodwyd y gwaith o'r neilldu. Yn 1859, tra ond yn 53 oed, bu farw Brunel. Sbardunodd hyn rhai o gyd beirnianwyr Brunel i orffen y bont er cof amdano ac agorwyd y bonr, o'r diwedd yn 1864. Er iddo gael ei gynllunio ar gyfer trafndiaeth ysgafn 'caseg a thrap' y 19gan, deil y bont i wasanaethu'r gymuned yn llawn gan i dros 11 mîl o gerbydau ei chroesiyn ddyddiol.

**Manylion:**

Hyd, o angorfa i angorfa - 1,352tr (414 m)

Rhychwant y tyrrau, 702tr (214 m)

Lled 31tr (9.5m)

Uchder (uwch llanw uchel) 245tr (76 m)

Uchder y tyrrau gan gynnwys y capiau 86tr (26.2 m)

**Deunyddiau:**

Cadwynau a bariau- haearn bwrw.

Tyrrau – carreg lleol.

Mae Tŵr Leigh Woods (i'r de) yn sefyll ar sail o dywodfaen coch.

Llawr y bont- trawstiau pren 14cm o drwch yn sail i blanciau 5 cm o drwch. Oddiar 1899 gorchuddiwyd y llawr ag asphalt.

Ar gyfer y seremoni agoriadol yn 1864 goleuwyd y bont, ac y mae bob amser wedi ei goleuo ar gyfer achlysuron arbennig. Yn 1967 gosodwyd bylbiau ar y bont i'w goleuo yn barhaol. Er hyn, y mae pob system goleuo wedi bod yn drafferthus oherwydd dwyn bylbiau, fandaliaeth, rhydu ac adar yn pigo! Y mae'r system presennol a osodwyd ym mis Ebrill 2006 i ddathlu dau canmlwyddiant geni Brunel, yn cynnwys 3,000 o oleuadau LED pŵer isel.

Croeso ! Gobeithiwn y mwynhewch eich ymweliad.